# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 14 Ionawr 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Rhys Jones – Uwch Gadeirydd
Philip Roberts
Nia Jones
Catherine Hughes
Wyn Davies
Gareth Roberts
Dafydd Ll Williams
Tesni Wyn Jones
Einir Lewis
Anwen Davies – Cynghorydd Sirol
Rhian Holt - clerc

1. **Ymddiheuriadau** – Neb yn ymddiheuro

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Cadarnhawyd cofnodion 10 Rhagfyr 2020 yn gywir gan y Cynghorydd Wyn Davies ac eilwyd gan y Cynghorydd Rhys Jones.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**

**Biniau Baw Cŵn**
Roedd gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â biniau baw cŵn

- Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i Gynghorau Cymuned gymeryd hyn drosodd
- Byddai bin baw ci yn costio tua £200
- Byddai Cyngor Gwynedd yn dal i'w gwagio, codi £3.50 bob tro.
- Ni fydd y gweithwyr yn fodlon eu cario ymhell.

Penderfynwyd ar hyn o bryd i adael pethau fel ag y maent

**4. <u>Materion Ariannol</u>**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Rhagfyr i 3 Ionawr 2021 yn gywir yn y swm o £2528.16.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt | £111.79 | Siec rhif 200606 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £28.00 | Siec rhif 200607 |
| Canolfan Ffensio Glasfryn – coeden Nadolig | £72.00 | Siec rhif 200608 |
| Clwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen | £300.00 | Siec rhif 200609 |

Derbyniwyd **derbyniadau** gan Gyngor Gwynedd am rhent y cae chwarae a maes parcio Rhydyclafdy a hefyd gan Ysgol Botwnnog ynglŷn â'r cyfraniad at liniadur i'r ysgol.

**Cyllideb Blwyddyn 2020/2021**
Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Dafydd Ll Williams petai yn fodlon gwneud cyllideb am y flwyddyn 2020/2021, bydd y clarc yn danfon y llyfr cyfrifon i'w swyddfa ym Mhwllheli tua ganol mis Chwefror. Diolchwyd i Dafydd Williams.

**5. Materion Cynllunio**
Derbyniwyd un cais cynllunio a penderfynwyd fel a ganlyn:
Rhif Cais: C20/1045/33/DT
Lleoliad: Fferm Mochras Uchaf, Ceidio, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8UF
Bwriad: Estyniadau
Penderfyniad – **Dim gwrthwynebiad**

**6. Datgan Diddordeb**
Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**7. <u>Materion er Gwybodaeth</u>**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

9. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

**Mynwent Llanfihangel**
Datganodd y Cadeirydd bod un pris wedi ei dderbyn, ar ôl trafodaeth penderfynwyd disgwyl hyd at gyfarfod mis Chwefror er mwyn efallai derbyn pris arall.

**Coeden Nadolig yn y pentref**
Ers y cyfarfod diwethaf roedd y Cadeirydd wedi bod yn gwneud ymholiadau yng Nghanolfan Ffensio Glasfryn a datganodd yn y cyfarfod bod pris wedi ei dderbyn am £60 + Taw am goeden Nadolig chwech troedfedd. Trafodwyd hyn a penderfynwyd cario ymlaen i gael y goeden Nadolig ac y byddai'r Is Gadeirydd yn trefnu i nol y goeden a'i phlannu yn Winllan Bach, Rhydyclafdy. Diolchwyd i Rhys Jones.

**Defibrillator**
Roedd e bost wedi ei dderbyn gan Galonnau Cymru yn cynnig grant o £200 tuag at gôst Defibrillator. Trafodwyd os oes angen peiriant mewn rhannau eraill o'r gymuned.
Cyn y cyfarfod nesaf gofynwyd i gynghorwyr Boduan a Cheidio ystyried os oes safle boddhaol i osod y peiriant, gan gofio y bydd angen rhywle gyda chyflenwad trydan.

**Clwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen**
Derbyniwyd llythyr gan Glwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen yn holi am gymorth ariannol er mwyn eu galluogi i gynnig mwy o nosweithiau a gweithgareddau rithiol drwy ddefnyddio Zoom. Penderfynwyd cyfrannu £300.

**Mwd ar y lôn yn ardal Rhydyclafdy**
Dydi'r lonydd heb gael eu clirio. Gofynwyd i'r clarc wneud ymholiad eto.

**Tan y Graig, Boduan**
Cafwyd ymholiad yn y cyfarfod ynglŷn â "*cones*" sydd wedi eu lleoli ger wal Tan y Graig ar y lôn am Rhosfawr. Datganodd y Cynghorydd Anwen Davies y byddai yn holi yr adran ffyrdd beth sydd yn mynd ymlaen. Diolchwyd i Anwen.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Chwefror 2021 drwy gyfrwng **ZOOM**.